# Gwirioni ar Gymraeg!

Mis Awst eleni, death teulu newydd i fyw i Flaenau Ffestiniog yr holl ffordd o Lithiwania. Mae 'na dri o fechgyn yn y teulu hwn sef Faustas sy'n 14oed, Kajus sy'n 13oed a Nojus sy'n 12 oed. Mae'r tri wedi bod yn dysgu Cymraeg yn y Ganolfan Iaith ym Mhorthmadog ers wyth wythnos ac wedi gwneud cynnydd anhygoel. Mi fydd y tri yma yn rhugl mewn dim.

Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw.

Helo! Fy enw ydy Kajus. Dwi'n hoffi Celf, Mathemateg a Daearydiaeth.Dwi'n hoffi sŵn geiriau Cymraeg fel' daearydiaeth'! Sut dwi'n siarad cymraeg? Dwi'n darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando a copio pobl yn siarad. Dwi yn Lithiwaniad ond hefyd rwan yn Gymro!

Helo fy enw ydy Faustas a dwi'n bwyddyn deg yn Ysgol y Moelwyn. Roeddwn i'n byw yn Lithunia ac roeddwn i'n mynd i'r ysgol yn Lithunia. Mi ddes i Blaenau Ffestiniog i fyw tri mis yn ôl. Dwi'n mwynhau dysgu Cymraeg. Dwi'n siarad pedair iaith – Rwseg, Lithiwaneg, Cymraeg a Saesneg. Dwi'n licio ysgrifennu storiau a darllen, dwi'n licio byw yng Nghymru ond dwi ddim yn licio'r tywydd achos mae hi bob amser yn bwrw glaw yn Blaenau Ffestiniog!




Helo Nojus ydw i. Dwi'n blwyddyn saith yn Ysgol y Moelwyn. Dwi'n hoffi chwarae pêldroed. Dwi'n siarad tair iaith: Lithiwanieg, Cymraeg a Saesneg. Dwi'n un degdau oed ac mae gen i ddau frawd o'r enw Faustas a Kajus. Dwi'n mwynhau siarad Cymraeg.